# TGAU Cymraeg Iaith Uned 3

## Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

# Yr Amgylchfyd

# Darnau Darllen

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

# Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

## Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

# YR AMGYLCHFYD

Mae 7 o ddarnau darllen yn yr Uned hon. Darllenwch bob un yn ofalus ac atebwch y cwestiynau

**Darn Darllen 1**

**Y Côd Cefn Gwlad**

## Y Côd Cefn Gwlad

**Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch.**

### Parchwch bobl eraill.

- Meddyliwch am gymuned yr ardal ac am y bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored.
- Gadewch glwydi ac eiddo fel yr oedden nhw ac arhoswch ar y llwybrau oni bai bod mynediad agored ar gael.

### Diogelwch yr amgylchedd naturiol.

- Peidiwch â gadael unrhyw arwydd eich bod wedi bod yno, ac ewch â'ch sbwriel gyda chi.
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol.

### Mwynhewch a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff.

- Cynlluniwch eich taith a byddwch yn barod am unrhyw beth annisgwyl.
- Dilynwch y cyngor a'r arwyddion lleol.

**Darn Darllen 2**




## MEWN PERYGL!

Mae'r cofnod ffosil yn dangos bod **llawer o rywogaethau wedi diflannu ers i fywyd ddechrau ar y Ddaear**. Mae hyn yn parhau i ddigwydd ac mae llawer ohono'n digwydd oherwydd gweithgareddau dynol. Rydym ni'n cystadlu â phethau byw eraill am le, bwyd a dŵr, ac rydym ni'n ysglyfaethwyr llwyddiannus iawn.

## Helpu rhywogaethau sydd mewn perygl

Mae'r panda a'r gorila mewn perygl, ac mae'n bosibl y byddan nhw'n diflannu. Mae rhai rhywogaethau mewn perygl ym Mhrydain hefyd, gan gynnwys y barcud, y wiwer goch a gwalch y pysgod. Gallen nhw gael eu helpu gan gynlluniau fel y rhain:

- rhaglenni addysg
- rhaglenni i'w bridio mewn caethiwed
- deddfwriaeth i'w gwarchod nhw a'u cynefinoedd
- creu ecosystemau artiffisial lle gallant ffynnu.

Mae'n anodd gweithredu cynlluniau o'r fath wrth ymdrin â rhai organebau, er enghraifft morfilod. Mae'r anifeiliaid hyn yn byw mewn dyfroedd rhyngwladol, felly mae angen deddfau a chytundebau rhyngwladol i'w diogelu.



Mae asiantaethau fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gyfrifol am ddefnyddio'r gyfraith i amddiffyn anifeiliaid fel y wiwer goch. Mae'n anghyfreithlon dal, lladd neu gadw gwiwerod coch oni bai bod gennych drwydded arbennig. Mae gan y barcud a gwalch y pysgod safleoedd sy'n eu gwarchod yng Nghymru hefyd.

# Beth ydych chi’n ei wneud â’ch gwastraff?

**Darn Darllen 3**

Llwyddodd awdurdodau Cymru i ailgylchu 54.3% o'u gwastraff y llynedd yn ôl ffigyrau a ryddhawyd yn ddiweddar. Y nod ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2016 yw 58%.

Dyma dabl y deg uchaf:

| Safle | Awdurdod lleol | Canran 2014/2015 |
|---|---|---|
| 1. | Dinbych | 63.2% |
| 2. | Mynwy | 62.9% |
| 3. | Penfro | 60.3% |
| 4. | Ceredigion | 58.4% |
| 5. | Caerffili | 57.6% |
| 6. | Pen-y-bont ar Ogwr | 56.5% |
| 7. | Conwy | 56.3% |
| 8. | Caerfyrddin | 55.7% |
| 9. | Fflint | 55.1% |
| 10. | Blaenau Gwent a Bro Morgannwg | 54.8% |

Mae Cyngor Sir Penfro wedi sefydlu Cynllun Ailgylchu Bagiau Oren a dyma sy'n digwydd i'r bagiau ar ôl iddyn nhw gael eu casglu.









1. Mae lori yn mynd â'r holl ddeunydd i gyfleuster ailgylchu yn Withyhedge er mwyn gollwng y llwyth.

2. Ar ôl eu dadlwytho mae pobl yn torri'r bagiau ar agor gan adael y deunydd ailgylchu i syrthio'n rhydd ar y llawr. Mae'r bagiau oren yn cael eu casglu mewn byrnau i'w hailgylchu.

3. Mae'r deunydd rhydd yn cael ei bentyrru'n uchel ac mae llwythwr yn ei gasglu fesul bwced ac mae'n cael ei arllwys mewn i ‘hopper'.

4. Mae'r deunydd i'w ailgylchu yn cael ei gludo ar hyd belt trosglwyddo i linell gasglu lle mae'r deunyddiau'n cael eu trefnu yn bentyrrau unigol.

5. Mae'r deunydd sydd wedi ei drefnu yn cael ei gludo wedyn ar hyd belt trosglwyddo arall ac yn syrthio mewn i beiriant byrnu.

6. Mae'r byrnau'n cael eu storio cyn cael eu cludo i'w cyrchfan.

**Darn Darllen 4**

**Sbwriel**

Mae 'na sbwriel ar y bysiau
Mae 'na sbwriel ar y stryd
Ai chi sy'n gollwng sbwriel
O hyd ac o hyd?

Hen bapurau siocled
O flaen drysau'r tai
Peidiwch, peidiwch, peidiwch dweud
'Nid arna'i mae'r bai'.

Pwy biau'r tuniau?
Pwy biau'r papur tschips?
Pwy ar iard yr ysgol
Sy'n taflu bagiau crisps?

Mae 'na sbwriel ar y bysiau
Mae 'na sbwriel ar y stryd
Ai chi sy'n gollwng sbwriel
O hyd ac o hyd?

Zac Davies



**Darn Darllen 5**

# Llifogydd! Help!



Seiclon wedi dinistrio Vanuatu – Mawrth 2015

Bydd rhaid i gadwyn o ynysoedd Vanuatu yn y Môr Tawel “ddechrau o’r dechrau” wedi i seiclon pwerus rwygo drwy’r ardal a difrodi 90% o’r adeiladau yn y brif ddinas Port Vila, yn ôl Prif Weinidog y wlad. Cafodd o leiaf chwech o bobol eu lladd a dwsinau eu hanafu wedi i seiclon Pam, gyda gwyntoedd o hyd at 155 milltir yr awr, daro un o wledydd tlotaf y byd.

Mae rhai ardaloedd yng Nghymru hefyd wedi dioddef yn enbyd oherwydd llifogydd dros y blynyddoedd diwethaf.







Golwg 360

Nid oes modd atal llifogydd yn llwyr, ond gallwn baratoi ar eu cyfer. Mae **Asiantaeth yr Amgylchedd** wedi cyhoeddi gwybodaeth a fydd o gymorth cyn llifogydd, yn ystod llifogydd, ac wedi i'r dŵr gilio.

- **Gwrando ar eich gorsaf radio leol i gael y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r llifogydd.**
- **Paratoi bagiau tywod i rwystro'r dŵr rhag dod trwy ddrysau.**
- **Gwisgo menig plastig / rwber pan fyddwch yn trin eitemau sydd wedi bod yn y dŵr.**
- **Paratoi pecyn arbennig ar gyfer llifogydd, yn cynnwys fflachlamp, blancedi, dillad cynnes sy'n dal dŵr, welingtons, radio a batris, pecyn cymorth cyntaf, menig rwber, bwyd, bwyd anifeiliaid anwes, a meddyginiaeth.**
- **Diffodd y cyflenwad nwy, dŵr a thrydan ar unwaith.**
- **Symud eich anifeiliaid anwes i le diogel.**
- **Os yw'n angenrheidiol eich symud o'r tŷ, cysylltu â'r Heddlu neu ffonio 999.**
- **Ceisio tynnu sylw rhywun.**
- **Osgoi dŵr sy'n llifo. Gall chwe modfedd o ddŵr fwrw oedolyn i'r llawr.**

**Mae'n bwysig eich bod yn gwybod mai eich cyfrifoldeb chi yw amddiffyn eich eiddo, nid yr Awdurdod Lleol.**

Darn darllen 6

# Ai ceir trydan yw'r ateb?

Erbyn canol y ganrif hon, mae'n edrych yn debyg y bydd olew'n dod i ben. Mae'n rhaid dechrau meddwl am dechnoleg newydd.

Ar hyn o bryd, mae 28.5 miliwn o geir ym Mhrydain, ond lleiafrif bach iawn - dim ond tua 1,500 ohonyn nhw - sy'n geir trydan. Pam nad oes rhagor?







**Hen gar trydan o 1917**

**Mae nifer o anfanteision ar hyn o bryd:**

**Cost**
Rhaid talu crocbris am geir trydan. Er bod y llywodraeth yn cynnig grant o £5,000 i bawb sy'n prynu car trydan, mae car fel 'Nissan Leaf' yn dal i gostio £25,990.

**Pellter teithio**
Fel arfer, mae'n rhaid gwefru car trydan bob 100 milltir. Y drafferth yw bod rhai ceir yn cymryd hyd at 8 awr (dros nos) i wefru.

**Nifer y gorsafoedd gwefru**
Ychydig o'r rhain sydd ar y ffyrdd ar hyn o bryd - tua 2,500 dros Brydain. Heb orsafoedd gwefru cyfleus, mae'n amhosibl teithio dros 100 milltir

**Ceir trydan gwyrdd?**

Mae ceir trydan yn ymddangos yn wyrdd ac yn 'lân' o ran yr amgylchedd oherwydd nad ydyn nhw'n allyrru mwg ecsôst. Ond, os yw'r trydan yn dod o ffynonellau 'budr/brwnt', fel gorsafoedd pŵer sy'n llosgi glo, dydy'r ceir ddim yn wyrdd chwaith.

Ond, rhaid cofio bod nifer o **fanteision** hefyd:

**Ceir trydan yn gwella**
Mae ceir trydan yn gwella drwy'r amser. Ychydig flynyddoedd yn ôl, dim ond ceir bach dwy sedd oedd ar gael. Doedden nhw ddim yn gallu mynd yn bellach na 80 milltir, a ddim yn gyflymach na 45 milltir yr awr. Erbyn hyn mae ceir 5 sedd ar gael sy'n mynd yn bellach ac yn gyflymach. **Hefyd -** does dim rhaid talu treth ffordd am gar trydan!

**Darn Darllen 7**

**CERDDWCH YN LLE MYND YN Y CAR!**

Annwyl gyfeillion...

Rydw i wedi dod yma heddiw i geisio eich cael chi i feddwl am y ffordd rydych chi yn byw eich bywyd.

Rydw i eisiau i chi ddychmygu eich tŷ – yr adeilad rydych chi yn byw ynddo. Rydw i eisiau i chi ddychmygu bod y to yn gollwng, y waliau'n dyllau i gyd, y ffenestri'n llawn craciau. Ac yn waeth na hyn, rydw i eisiau i chi ddychmygu bod sail y tŷ yn wan. A fyddech chi'n hapus i fyw yn y fath dŷ? Na fyddech. A fyddech chi'n mynd ati i wneud yn siŵr bod rhywbeth yn cael ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa? Wel, byddech wrth gwrs!

Gyfeillion, a gaf i fod mor hy ag awgrymu bod hyn yn digwydd i ni heddiw heb ein bod ni'n sylweddoli hynny? Mae hyn yn digwydd i bob un ohonon ni. Ond nid ein tŷ ni sy'n wan ac yn llawn tyllau a chraciau. Nage, gyfeillion, mae rhywbeth llawer pwysicach mewn perygl mawr. Rhywbeth y bydd hi'n anodd iawn ei atgyweirio, sef ein daear ni!

Ers blynyddoedd rydyn ni wedi bod yn byw mewn ffordd sy'n gwneud niwed i'r blaned. Hyd yn oed trwy adael y golau ymlaen yn yr ystafell wedi i ni ei gadael, trwy fynd yn y car pan allen ni fod yn cerdded, a thrwy daflu sbwriel i'r bin yn lle ei ailgylchu, rydyn ni'n gwneud drwg i'r lle sy'n gartref i ni. Rydyn ni'n ddigon parod i ofalu am ein tai, ond yn gyndyn iawn i ofalu am ein daear. Pam? Wel, fe ddweda i wrthych chi pam. Ni, a ni yn unig sy'n gyfrifol am ein tŷ ni. Problem i ni yw'r twll yn y to. Problem i ni yw'r crac yn y ffenest!

Ond gyda'r ddaear, rydyn ni'n meddwl mai problem i rywun arall yw hyn. Rydyn ni'n hunanol, yn edrych ar ôl ein cornelyn bach ni, heb sylweddoli os na fyddwn ni'n gwneud ein rhan i achub y ddaear, yna bydd pethau yn mynd yn rhy bell yn fuan iawn!

Bydd amser yn dod pan y bydd hi'n rhy hwyr. Ar bob cyfrif gofalwch am eich tŷ. Byddech chi'n anghyfrifol i beidio â gwneud. Ond mae'r un mor bwysig i ni warchod ein planed hefyd. Pe bai pawb yn gwneud ei ran, pa mor fach bynnag fyddai, yna byddai ein plant a phlant ein plant yn ddiolchgar i ni am byth!

# Papur Enghreifftiol

# TGAU

# Cymraeg Iaith

# UNED 3

# Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

# (PAPUR ENGHREIFFTIOL) – YR AMGYLCHFYD
**2 awr**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Atebwch y **ddau** gwestiwn yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

| | | |
|---|---|---|
| Adran A | – | tua 10 munud yn darllen |
| | – | tua 50 munud yn ateb y cwestiynau |
| Adran B | – | tua 10 munud yn cynllunio |
| Adran B1 | – | tua 25 munud yn ysgrifennu |
| Adran B2 | – | tua 25 munud yn ysgrifennu |

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## YR AMGYLCHFYD

**Adran A (Darllen): 30 marc**

Mae 7 o ddarnau darllen yn yr Uned hon. Darllenwch bob darn yn ofalus ac atebwch y cwestiynau canlynol:

**Darn Darllen 1**

**Y Côd Cefn Gwlad**

**A1.** Nodwch ddau beth sydd yn dangos mai **rheolau** neu **gyfarwyddiadau** sydd yn y darn darllen hwn**.** [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

……………………………………………………………………………………………………

**Darn Darllen 2**

**Mewn Perygl !**

**A2.** Pa rai o'r canlynol sydd mewn perygl ym Mhrydain? Rhowch ✓ yn y blychau priodol. [3]

| | |
|---|---|
| barcud | ☐ |
| gorila | ☐ |
| morfil | ☐ |
| wiwer lwyd | ☐ |
| gwalch y pysgod | ☐ |
| panda | ☐ |
| wiwer goch | ☐ |

**A3.** Beth sydd ei angen cyn y gellir dal neu ladd wiwer goch? [1]

..........................................................................................................................................

……………………………………………………………………………………………..

**Darn Darllen 3**

**Beth ydych chi'n ei wneud â'ch gwastraff?**

**A4.** Ticiwch ✓ y blychau priodol i ddangos pa ddau o'r awdurdodau canlynol sydd eisoes wedi cyrraedd y targed sydd wedi'i osod ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2016 [2]

Caerfyrddin [ ]

Caerdydd [ ]

Ceredigion [ ]

Caerffili [ ]

Powys [ ]

Penfro [ ]

**A5.** Beth sy'n digwydd i'r bagiau oren ar ôl iddynt gael eu casglu? Rhowch y camau canlynol yn y drefn gywir drwy roi'r rhifau yn y blychau priodol. [3]

- Pentyrru'r deunydd rhydd yn uchel a'i gasglu fesul bwced gyda llwythwr ac yna ei arllwys mewn i 'hopper'. ☐
- Storio'r byrnau cyn eu cludo i'w cyrchfan. ☐
- Cludo'r deunydd i'w ailgylchu ar hyd belt trosglwyddo i linell gasglu i'w drefnu yn bentyrrau unigol. ☐
- Lori yn mynd â'r holl ddeunydd i gyfleuster ailgylchu yn Withyhedge er mwyn gollwng y llwyth. ☐
- Torri'r bagiau ar agor gan adael y deunydd ailgylchu i syrthio'n rhydd ar y llawr. ☐
- Cludo'r deunydd sydd wedi ei drefnu wedyn ar hyd belt trosglwyddo arall a'i ollwng i mewn i beiriant byrnu. ☐

**Darn Darllen 4**

**A6**. Beth sydd gan y bardd i'w ddweud wrthym yn y gerdd hon?  Beth yw ei neges? [2]

**……………………………………………………………………………………………………..**

**…………………………………………………………………………………………………….**

**……………………………………………………………………………………………………….**

**……………………………………………………………………………………………………….**

**……………………………………………………………………………………………………….**

**A7.** Sut mae e'n pwysleisio'r neges hon? [1]

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

**Darn darllen 5**

**Llifogydd! Help!**

**A8.** Atebwch y cwestiynau canlynol mewn brawddegau llawn. [4]

1. Beth sydd angen ei wneud gydag anifeiliaid os oes llifogydd?

   ...........................................................................................................................

2. Pam mae angen osgoi dŵr sy'n llifo?

   ...........................................................................................................................

3. Ymhle yr oedd seiclon wedi difrodi 90% o'r adeiladau yn ddiweddar?

   ...........................................................................................................................

4. Pwy sydd i fod yn gyfrifol am eich eiddo?

   ...........................................................................................................................

**Darn Darllen 6**

**Ai ceir trydan yw'r ateb?**

**A9.** Rhowch ✓ mewn dau flwch i ddangos pa ddau o'r canlynol sy'n **anfanteision** car trydan. [2]

1. Mae'r car trydan yn rhad i'w brynu [ ]
2. Rhaid gwefru car trydan bob 100 milltir. [ ]
3. Does dim rhaid talu treth am gar trydan. [ ]
4. Mae'r car ar gael mewn llawer o liwiau. [ ]
5. Erbyn hyn mae ceir trydan yn mynd yn bellach ac yn gyflymach. [ ]
6. Rhaid talu crocbris am gar trydan. [ ]

**A10.** Nodwch ddwy o **fanteision** y car trydan [2]

i) …………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………..

ii) ………………………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………………………….

**Darn Darllen 7**

**Cerddwch yn lle mynd yn y car**

**A11.** Trafodwch agwedd yr awdur yn y darn darllen. Beth yw ei neges? Sut mae yn cyfleu hyn yn y darn? [8]

Oes neges debyg i'w gweld mewn unrhyw un o'r darnau darllen eraill yn yr Uned hon? Ym mha fodd y mae'n debyg / wahanol?

Gallwch ddyfynnu neu gyfeirio at enghreifftiau penodol o'r darn darllen i gefnogi eich pwyntiau.

…………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………
.

………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………

**ADRAN B (Ysgrifennu) : 40 marc**

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn ac 20 marc am ysgrifennu'n gywir yn y ddau gwestiwn.

**B1. Llythyr yn mynegi barn** [20]

Rydych yn anghytuno â chynllun i adeiladu/datblygu rhywbeth fyddai yn effeithio ar yr amgylchfyd yn eich ardal. Ysgrifennwch **lythyr** at eich cynghorydd lleol / neu eich papur bro, yn mynegi eich barn ar y mater a'ch pryderon. Dylech gynnig rhesymau pam na ddylai'r cynllun gael ei ganiatáu.

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

**B2. Taflen yn perswadio** [20]

Rydych eisiau perswadio ymwelwyr i ddod i'ch ardal i fwynhau'r amgylchfyd.

Lluniwch **daflen** gryno yn disgrifio yr hyn fydd i'w weld a'i wneud, ac yn ceisio annog ymwelwyr i ymweld â'r lle.

Ni ddylech dreulio gormod o amser yn dylunio'r daflen..

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

# Cynllun Marcio

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL) – YR AMGYLCHFYD**
**2 awr** **Cynllun Marcio**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Atebwch y **ddau** gwestiwn yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

Adran A – tua 10 munud yn darllen
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B – tua 10 munud yn cynllunio
Adran B1 – tua 25 munud yn ysgrifennu
Adran B2 – tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## YR AMGYLCHFYD

**Adran A (Darllen): 30 marc**

Mae 7 o ddarnau darllen yn yr Uned hon. Darllenwch bob darn yn ofalus ac atebwch y cwestiynau canlynol:

**Darn Darllen 1**

**Y Côd Cefn Gwlad**

**A1.** *(adalw / dehongli gwybodaeth ac adnabod geirfa)*

Nodwch ddau beth sydd yn dangos mai **rheolau** neu **gyfarwyddiadau** sydd yn y darn darllen hwn**.** [2]

Un marc yr un hyd at ddau.farc.

- berfau gorchmynnol ( - wch) e.e. meddyliwch, peidiwch â gadael
- o ran cynnwys, mae'n dweud wrth bobl beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud (yn eu rhestru)

**Darn Darllen 2**

**Mewn Perygl !**

**A2.** *(adalw a dehongli gwybodaeth)*

Pa rai o'r canlynol sydd mewn perygl ym Mhrydain? Rhowch ✓ yn y blychau priodol. [3]

Un marc yr un hyd at 3 marc**.**

| | |
|---|---|
| barcud | ✓ |
| gorila | |
| morfil | |
| wiwer lwyd | |
| gwalch y pysgod | ✓ |
| panda | |
| wiwer goch | ✓ |

**A3.** *(adalw gwybodaeth)*

Beth sydd ei angen cyn y gellir dal neu ladd wiwer goch?

Un marc am yr ateb canlynol:

trwydded arbennig [1]

**Darn Darllen 3**

**Beth ydych chi'n ei wneud â'ch gwastraff?**

**A4**. Ticiwch y blychau priodol i ddangos pa ddau o'r awdurdodau canlynol sydd eisoes wedi cyrraedd y targed sydd wedi'i osod ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2016. (adalw a dehongli gwybodaeth) [2]

Un marc yr un am nodi Ceredigion a Phenfro

**A5.** (dehongli / dadansoddi gwybodaeth + rhoi mewn trefn – dilyniannu)

Beth sy'n digwydd i'r bagiau oren ar ôl iddynt gael eu casglu? Rhowch y camau canlynol yn y drefn gywir drwy roi'r rhifau yn y blychau priodol. [3]

Hanner marc yr un hyd at 3 marc.

- Pentyrru'r deunydd rhydd yn uchel a'i gasglu fesul bwced gyda llwythwr ac yna ei arllwys mewn i 'hopper'. 3
- Storio'r byrnau cyn eu cludo i'w cyrchfan. 6
- Cludo'r deunydd i'w ailgylchu ar hyd belt trosglwyddo i linell gasglu i'w drefnu yn bentyrrau unigol. 4
- Lori yn mynd â'r holl ddeunydd i gyfleuster ailgylchu yn Withyhedge er mwyn gollwng y llwyth. 1
- Torri'r bagiau ar agor gan adael y deunydd ailgylchu i syrthio'n rhydd ar y llawr. 2
- Cludo'r deunydd sydd wedi ei drefnu wedyn ar hyd belt trosglwyddo arall a'i ollwng i mewn i beiriant byrnu. 5

**Darn Darllen 4**

**A6.** Beth sydd gan y bardd i’w ddweud wrthym yn y gerdd hon?  Beth yw ei neges?   [2]

(dehongli gwybodaeth a barn awdur)

Un marc yr un, hyd at ddau farc, am sylwadau tebyg i'r canlynol:

- bod sbwriel ym mhobman
- mae’n gofyn ai ‘chi’ / ni sy’n gollwng y sbwriel
- neges y bardd yw bod angen i ni gyd gymryd y cyfrifoldeb am ein sbwriel – peidio â dweud "nid arna’ i mae’r bai’’

**A7.** Sut mae e'n pwysleisio'r neges hon? (dehongli gwybodaeth)          [1]

Un marc am unrhyw bwynt dilys e.e. ailadrodd, cwestiwn rhethregol.

**Darn Darllen 5**

**Llifogydd! Help!**

**A8.** Atebwch y cwestiynau canlynol mewn brawddegau llawn.              [4]

(cywain a dehongli gwybodaeth gan resymu)

Un marc yr un hyd at 4 marc.

1. Beth sydd angen ei wneud gydag anifeiliaid anwes os oes llifogydd?

   eu symud i le diogel

2. Pam mae angen osgoi dŵr sy’n llifo?

   oherwydd y gall chwe modfedd o ddŵr fwrw oedolyn i’r llawr

3. Ymhle yr oedd seiclon wedi difrodi 90% o’r adeiladau yn ddiweddar?

   ynysoedd Vanuatu

4. Pwy sydd i fod yn gyfrifol am eich eiddo?

   chi / ni ( nid yr Awdurdod Lleol)

**Darn Darllen 6**

**A9. Ai ceir trydan yw'r ateb?**

Rhowch ✓ mewn dau flwch i ddangos pa ddau o'r canlynol sy'n **anfanteision** car trydan.
Un marc am bob ateb cywir. [2]

(dehongli a dadansoddi gwybodaeth)

1. Mae car trydan yn rhad i'w brynu. [ ]
2. Rhaid gwefru car trydan bob 100milltir [✓]
3. Does dim rhaid talu treth am gar trydan. [ ]
4. Mae'r car ar gael mewn llawer o liwiau [ ]
5. Erbyn hyn mae ceir trydan yn mynd yn bellach ac yn gyflymach [ ]
6. Rhaid talu crocbris am gar trydan. [✓]

**A10.** Nodwch ddwy o **fanteision** y car trydan. [2]

Un marc yr un hyd at ddau farc am sylwadau tebyg i:

Dydyn nhw ddim yn allyrru mwg ecsôst.

Mae grant ar gael i bawb sy'n prynu un ohonyn nhw.

Does dim rhaid talu treth.

Maen nhw'n mynd yn gyflymach ac yn bellach erbyn hyn.

**Darn Darllen 7**

**Cerddwch yn lle mynd yn y car**

**A11.** Trafodwch agwedd yr awdur yn y darn darllen. Beth yw ei neges? Sut mae yn cyfleu hyn yn y darn? [8]

Oes neges debyg i'w gweld mewn unrhyw un o'r darnau darllen eraill yn yr Uned hon? Ym mha fodd y mae'n debyg / wahanol?

Medrwch ddyfynnu neu gyfeirio at enghreifftiau penodol o'r darn darllen i gefnogi eich pwyntiau.

*(cywain, dehongli gwybodaeth ac adnabod barn awdur + cymharu neu gyfuno gwybodaeth, yn ogystal â dulliau'r awdur)*

Sylwadau tebyg i'r canlynol. Gellir cyfeirio at bethau eraill perthnasol yn y darn/au hefyd.

Agwedd a neges:

- ein bod wedi bod yn byw mewn ffordd sy'n gwneud niwed i'r blaned e.e. gadael y golau ymlaen, mynd yn y car pan allen ni gerdded, taflu sbwriel i'r bin yn lle ei ailgylchu
- ein bod yn meddwl mai problem rhywun arall ydyw
- rydyn ni'n hunanol......
- ddim yn sylweddoli os na fyddwn ni'n gwneud ein rhan i achub y ddaear, bydd pethau'n mynd yn rhy bell yn fuan iawn
- bydd amser yn dod i ben a bydd hi'n rhy hwyr
- pwysig gwarchod ein planed
- pe byddai pawb yn gwneud ei ran byddai'r plant yn ddiolchgar

Sut mae'n cyfleu hyn?

- gofyn i ni ddychmygu / cymharu â'n ty efo'r to yn gollwng .......
- cyfarch y gynulleidfa – gyfeillion....
- cwestiynau rhethregol
- pigo cydwybod ......ein daear ni, dweud ei bod yn gyfrifoldeb arnon ni, amser yn dod i ben

Rhywbeth yn debyg mewn darnau eraill?

- côd cefn gwlad yn dweud bod angen parchu a diogelu'r amgylchfyd
- darn 4 a 5 yn dweud bod angen peidio â thaflu sbwriel /(5) a bod angen ailgylchu (4)
- darn 6 – cyfrifoldeb pob un ohonom yw gwarchod ein heiddo – rhag llifogydd

**Marciau am y drafodaeth yn gyffredinol:**

- 0 marc — os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn
- 1-2 marc — peth ymdrech i drafod y testun yn fras
- 3-4 marc — ymdrech eithaf da i drafod y testun/au gyda rhai sylwadau perthnasol

- 5-6 marc trafod y testun yn dda gyda sylwadau perthnasol am y darn a chyfeiriadau at destunau eraill – cynnwys ambell/ enghraifft/ dyfyniad

- 7-8 marc trafod y testun yn dda iawn gan gynnig rhai dyfyniadau /cyfeiriadau at y testun gan gymharu â rhai testunau eraill

**ADRAN B (Ysgrifennu) : 40 marc**

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn ac 20 marc am ysgrifennu'n gywir yn y ddau gwestiwn.

Gweler y cynllun marcio

(Angen i nodweddion y ffurf a'r ysgrifennu fod yn gywir, ac i ofynion y cwestiwn gael eu hateb.)

B1. Llythyr yn mynegi barn [20]

**Rydych yn anghytuno â chynllun i adeiladu/ ddatblygu rhywbeth fyddai yn effeithio ar yr amgylchfyd yn eich ardal. Ysgrifennwch lythyr at eich cynghorydd lleol / neu eich papur bro, yn mynegi eich barn ar y mater a'ch pryderon. Dylech gynnig rhesymau pam na ddylai'r cynllun gael ei ganiatau.**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

B2. Taflen yn perswadio [20]

**Rydych eisiau perswadio ymwelwyr i ddod i'ch ardal i fwynhau'r amgylchfyd.**

**Lluniwch daflen gryno yn disgrifio yr hyn fydd i'w weld a'i wneud, ac yn ceisio annog ymwelwyr i ymweld â'r lle.**

**Ni ddylech dreulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

| | *CYFATHREBU A THREFN*<br>*(YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir |

| | ***CYFATHREBU A THREFN***<br>***(YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| | | • Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |